# CYLCHLYTHYR

# NEWSLETTER

# MAI / MAY



# 2024

Fe fydd yr ysgol yn ail agor yn llawn i ddisgyblion ar
**Dydd Llun 03/06/2024.**

The school will fully re-open to pupils on
**Monday 03/06/2024.**

## Dyddiadau Pwysig / Important Dates

| | |
|---|---|
| Seremoni Bl 11 / Year 11 Ceremony | 21/06/2024 |
| Hyforddiant Mewn Swydd (Dim Ysgol i ddysgwyr) / Staff Training Day (No School for learners) | 28/06/2024 |
| Tridiau o weithgareddau / 3 Days of activites | 10,11,12/07/2024 |
| Diwrnod Olaf Tymor / Last Day of Term | 19/07/2024 |

# Gair gan y Pennaeth
## *A message from the Headteacher*



Annwyl Rieni / Gwarcheidwiaid

Wrth i ni agosáu at diwedd hanner tymor prysur rydym yn ffarwelio gyda disgyblion Blwyddyn 11 ac 13 sydd wedi dod i ddiwedd ei cyfnod yma yn Ysgol Dyffryn Conwy.

Fodd bynnag, roeddwn i eisiau dechrau trwy ddiolch i chi gyd fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth wych dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Rwy'n arbennig o werthfawrogol am bopeth rydych chi wedi bod yn ei wneud i gefnogi ein pobl ifanc. Mae'r ysgol hefyd wedi derbyn nifer o negeseuon o ddiolch a chefnogaeth gan gynifer ohonoch dros yr wythnosau diwethaf, ac rydym yn ddiolchgar iawn o'u derbyn.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i'r holl staff addysgu sydd wedi parhau i weithio'n hynod o galed i sicrhau bod y dysgwyr yn gallu parhau â'u hastudiaethau. Byddem yn annog ein dysgwyr i ddefnyddio'r amser hanner tymor i orffwys ac ymlacio wrth baratoi ar gyfer yr hanner tymor newydd.

Fel y dywedais yn un o fy negeseuon diweddar i'r dysgwyr, mae dyfalbarhad a brwdfrydedd tuag at waith Ysgol ac hapusrwydd ein bobl ifanc yn bwysig iawn a byddwn yn eu hannog i gyd i barhau ag agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu yn yr hanner tymor olaf. Hoffwn i chi barhau i annog eich plentyn i gynnal eu hymdrechion, mae'r holl staff yn awyddus iawn i gydnabod yr hyn mae nhw wedi bod yn ei wneud ac i rannu a dathlu eu llwyddiannau.

Cofiwch gysylltu â ni os oes angen unrhyw gefnogaeth arnoch. Yn y cyfamser, anfonaf fy nymuniadau gorau atoch chi a'ch teuluoedd am seibiant hanner tymor diogel, hapus a hamddenol.

Yr eiddoch yn gywir,

Mr Owain Gethin Davies

# Gair gan y Pennaeth

## *A message from the Headteacher*



Dear Parents / Guardians

As we approach the end of a busy half term, we say goodbye to our Year 11 and 13 pupils who have come to the end of their time at Ysgol Dyffryn Conwy.

However, I wanted to start by thanking you all as parents and guardians for your wonderful support over the past few weeks. I am especially appreciative of everything you have been doing to support our young people. The school has also received many messages of thanks and support from so many of you over the past few weeks, which we are very grateful to receive.

Once again I would like to thank all the teaching staff who have continued to work extremely hard to ensure that learners are able to continue their studies. We would encourage our learners to use the half term to rest and relax in preparation for the last half term of the academic year.

As I said in one of my recent messages to learners, perseverance and enthusiasm for School work and the happiness of our young people is very important and I would encourage them all to continue a positive attitude towards their learning in the next half term. We would like you to continue to encourage your child to keep up their efforts, all staff are very keen to acknowledge what they have been doing and to share and celebrate their achievements.

Please contact us if you need any support. In the meantime, I send my best wishes to you and your families for a safe, happy and relaxed half-term break.

Kind regards

Mr Owain Gethin Davies

## LLONGYFARCHIADAU
## CANLYNIADAU CELF A CHREFFT URDD
## SIR CONWY 2024

- **175** - Cynllunio Crys-T Bl.7, 8 a 9 - ***1af Non Dafydd, 2ail Nel Roberts, 3ydd Cari Roberts***
- **183** - Llun 2D Bl.10 a dan 19 oed - ***1af Marged Howatson, 2ail Ela Wynne***
- **207** - Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9 - ***1af Cadi Roberts, 2ail Ceirion Davies***
- **210** - Ffotograff wedi'i addasu Bl.7, 8 a 9 - ***1af Non Dafydd, 2ail Cadi Roberts 2ail Tesni Goddard 2ail Sara Williams***
- **230** - Ffotograffiaeth : Cyfres o Luniau Lliw Bl.7, 8 a 9 - ***1af Sara Williams***
- **243** - Tecstiliau Creadigol Bl.10 a dan 19 oed (Unigol neu grŵp) - ***1af Marged Howatson***
- **252** - Ffasiwn Bl.7, 8 a 9 (Unigol neu Grŵp) - ***1af Non Dafydd***
- **278** - Uwchgylchu Bl.7, 8 a 9 (Unigol neu grŵp) - ***1af Non Dafydd, 2ail Huw Lansberry***
- **290** - Gemwaith Bl.7, 8 a 9 (Unigol neu grŵp) - **1af Non Dafydd**
- **291 - Gemwaith Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) - 3ydd Marged Howatson**
- **296** - Dylunio a Thechnoleg Bl.7, 8 a 9 (Unigol neu grŵp) - ***1af Non Dafydd***

Urdd










## Nifer uchaf o bwyntiau Ysgolion Uwchradd
## Highest number of points - Secondary Schools



# Maldwyn - Gwobrau Cenedlaethol



Gwyddoniaeth - Criw Bl 7



Gwyddoniaeth - Osian Kay

**CANLYNIADAU CELF A CHREFFT URDD - GENEDLAETHOL MALDWYN 2024**

183 - Llun 2D Bl.10 a dan 19 oed - 2il Ela Wynne

291 - Gemwaith Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) - 3ydd Marged Howatson

296 - Dylunio a Thechnoleg Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) - 2il Non Dafydd



# Eisteddfod yr Urdd 2024

Darlledir Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024 ar S4C, Radio Cymru ac ar draws sawl platfform digidol ar y Cyfryngau Cymdeithasol o ddydd Llun 27 o Fai hyd at 1 Mehefin felly cofiwch wylio!

**Pob lwc i holl ddisgyblion Ysgol Dyffryn Conwy sydd yn cystadlu!**

Cofiwch ddilyn ffrwd X (Twitter) a Facebook Eisteddfod yr Urdd er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau a chyhoeddiadau Eisteddfod yr Urdd.

Eisteddfod yr Urdd in Maldwyn will be broadcasted on S4C, Radio Cymru and across a variety of digital platforms on Social Media from Monday 27 of May to June 1st !

**Good luck to all the pupils at Ysgol Dyffryn Conwy who are competing!**

Remember to follow the Urdd Eisteddfod's X (Twitter) and Facebook account to keep up to date with news and Eisteddfod yr Urdd announcements.

# Eisteddfod yr Urdd 2024

Urdd


**Dyma'r dolenni i chi ddal yr holl gyffro o Eisteddfod yr Urdd 2024 ym Maldwyn! Cliciwch ar y llwyfan i weld y perfformiad yn fyw.**

**Here are the links for you to catch all the action from the 2024 Eisteddfod yr Urdd in Maldwyn! Click the stage to see the performance live.**


**Llwyfan Coch**
**Red Stage**

**Llwyfan Gwyn**
**White Stage**

**Llwyfan Gwyrdd**
**Green Stage**









# Ymweliad Myfyrwyr Rhyngwladol 2024
## *International Student Visit 2024*

Yr hanner tymor yma rydym wedi croesawu 2 set o Fyfyrwyr Rhyngwladol i Ysgol Dyffryn Conwy. Mae myfyrwyr o'r Ynys Aduniad a'r Weriniaeth Siec wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yma yn yr ysgol a hefyd y gymuned leol.

This half term we have welcomed 2 sets of International Students to Ysgol Dyffryn Conwy. Students from the French Reunion Island and the Czech Republic have been taking part in activities here in the school and also the local community





# Llongyfarchiadau!

## *Congratulations!*

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi gweld llwyddiant dros y cyfnod diwethaf!

Congratulations to everyone who has seen success over the last period!




















# Young Enterprise
# Llongyfarchiadau! - Congratulations!

Llongyfarchiadau mawr!
Elis ac Owain Blwyddyn 10 wedi ennill gyda Young Enterprise cystadleuaeth 10X logo gorau!

Massive congratulations!
Elis & Owain have won throughout the UK with Young Enterprise Uk with the 10X best logo competition!








# Cwpan Eryri

Llongyfarchiadau mawr i'n tîm rygbi merched dan 13 a gurodd Ysgol Brynhyfryd 25-14 i ennill Cwpan Eryri - Da iawn ferched!

Big congratulations to our under 13 girls rugby team who beat Ysgol Brynhyfryd 25-14 to win the Cwpan Eryri - Well done girls!



# Cystadleuaeth UKMT
## *UKMT Competition*

Llongyfarchiadau i Osian a Dafydd am eu tystysgrifau yn y gystadleuaeth UKMT yn ddiweddar. Aeth Dafydd ymlaen i'r rownd nesaf, gan hefyd ennill tystysgrif Merit. Hefyd llongyfarchiadau i bawb o flwyddyn 7 ac 8 gymerodd ran yn y "UKMT Junior Challenge" yn ddiweddar, pawb yn derbyn tystysgrif, gyda nifer hefyd yn ennill tystysgrif efydd, arian ac aur - llongyfarchiadau mawr i chi gyd!

Congratulations to Osian and Dafydd for their certificates in the recent UKMT competition. Dafydd went on to the next round, also winning a Merit certificate. And also congratulations to everyone from year 7 and 8 who took part in the "UKMT Junior Challenge" recently, everyone receiving a certificate, with many also winning bronze, silver and gold certificates - big congratulations to you all!








# Seremoni Gadael Blwyddyn 13
## *Year 13 Leaving Ceremony*

Rydym bellach wedi ffarwelio â'n myfyrwyr blwyddyn 13 a fydd yn adolygu ar gyfer eu harholiadau gartref.
Dymunwn y gorau iddynt fel ysgol yn ystod eu harholiadau ac i'r dyfodol.

We have now said farewell to our year 13 students who will be revising for their exams at home.
As a school we wish them all the best during their exams and for the future.










# Cliciwch ar y logos isod / Click on the logos below

LEFEL NESA
POWER UP

CARLAM CYMRU
e-sgol

YOUNGMINDS
fighting for young people's mental health

BBC
Bitesize

cbac
wjec

YSGOL DYFFRYN CONWY

# Prynu'r wisg ysgol
# *Buying the school uniform*

Mae'r wisg ysgol newydd a'r wisg Addysg Gorfforol ar gael i'w prynu yn y llefydd canlynol:

*The new school uniform and Physical Education kit are available to buy in the following places:*



## ***Brodwaith***

Uned 1-7 Yr Hen Stablau, Pentrefoelas, Betws-Y-Coed, Conwy, LL24 0HT

01690 770393

01690 770693

admin@brodwaith.co.uk

www.brodwaith.co.uk

## ***Boppers Boutique***

4-6 Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy LL29 7NN

01492 534421

info@boppers.co.uk



## ***Ar y Gweill***

24 Heol Yr Orsaf, Llanrwst, Conwy, LL26 0EP

07875 634151

## ***School Talk***

24 Madoc Street, Llandudno, Conwy, LL30 2TL

01492 702757

# Canllawiau Gwisg Ysgol Blwyddyn 7-11

## *School Uniform Guidelines for Years 7-11*

| Eitem/Item | Disgrifiad/Manylion | Llun/Image | Description/Details |
|---|---|---|---|
| Crys Ysgol Gwyn<br><br>White School Shirt | Disgwylir i bob disgybl wisgo crys gwyn ffurfiol gyda botymau at y gwddw a choler ffurfiol i'r ysgol. Caniateir crys llewys byr neu hir. |  | Every pupil is expected to wear a formal white collared shirt with buttons to the collar. These can be long or short sleeved |
| Tei Ysgol<br><br>School Tie | Mae'r tei ysgol yn un Burgundy gyda streipiau Aur. Gellir archebu'r tei gan ein 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol. Disgwylir i'r tei gael ei wisgo yn briodol ar bob cyfrif. | | The school tie is Burgundy with Gold stripes. It can be purchased from any of our 4 suppliers or through the school. The tie should be correctly worn at all times |
| Siwmper Ysgol<br><br>School Jumper | Siwmper Burgundy gwddw 'V' gyda logo'r ysgol ar y blaen. Gall y simper gael ei archebu gan ein 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol.<br>**Mae angen y siwmper ysgol yn yr ysgol POB dydd** | | The school jumper is a BUrgundy 'V' neck jumper with the school logo in Gold on the chest. Again it can be purchased through any of our 4 suppliers<br>**The school jumper is needed in school EVERY day.** |
| Trowsus/Sgert Ysgol<br><br>School Trousers/Skirt | Trowsus du wedi eu teilwra neu sgert bletiog<br>**Disgwylir i'r sgert gael ei gwisgo at y pen-glin, neu'n hirach/ Ni chaniateir trowsusau tynn, leggings, chinos, jeans neu debyg.**<br>*** Caniateir shorts du wedi eu teilwra pan fydd y tywydd yn gynner yn nhymor y Haf.* |  | The black tailored trousers or black pleated skirt<br>**The skirt should be worn to the knee or longer. Jeans, chinos, leggings or tight trousers are not permitted.**<br><br>*** Black tailored shorts will be permitted during the Summer term.* |
| Esgidiau<br><br>Shoes | Dylid gwisgo esgidiau du plaen a fflat - dim logo na lliw. Caniateir bŵts at y ffêr, ond dim uwch. **Dim esgidiau ymarfer**. Dylai'r esgidiau fod yn ddigon cryf ar gyfer y diwrnod ysgol<br><br>**Sanau gwyn/du neu deits du yn unig.** | | Shoes should be plain black, flat with black soles with no logos or colour. Boots up to the ankle are permitted but no higher.<br>**No trainers allowed.**<br>Shoes must be sturdy enough to support during the school day.<br>**Plain white/black socks or black tights only.** |
| Ychwanegol<br><br>Additional | Caniateir un clust tlws ym mhob clust yn unig.<br>**Ni chaniateir tlysau yn y twyn nag ewinedd ffug.**<br>**Ni chaniateir lliwiau gwallt annaturiol.**<br>**Colur naturiol yn unig.** | | One stud earring per ear only is permitted.<br>**Facial piercings of any kind and false nails are not permitted.**<br>**Un-natural hair colour is not permitted.**<br>**Natural looking makeup only** |

# Dyfeisiadau Digidol
# Digital Devices

Diffiniad o ddyfais digidol eich hun - Ffôn symudol / Tabled / Offer sain / Clustffonau / Cyfrifiadur / Gliniadur.

Byddwch yn dod a dyfais eich hun i'r ysgol yn gyfan gwbl ar risg y defnyddiwr a'u rhieni / gwarcheidwad ac mae'r penderfyniad i ddod a dyfais i'r ysgol yn gyfrifoldeb i'r defnyddiwr a'u rhieni / gwarcheidwad. Ynghyd â'r atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o'r defnydd o'r ddyfais yn yr ysgol.

**Blwyddyn 7 - 11**
***NI DDYLAI DYFEISIADAU GAEL EI DEFNYDDIO*** **ar unrhyw achlysur yn ystod y diwrnod ysgol *(08:55 - 15:15)* (Mae hyn yn cynnwys amser egwyl a chinio) oni bai bod angen penodol mewn argyfwng neu rheswm penodol sydd wedi cael ei drafod gyda'r dysgwr a'r rhieni / gwarcheidwad o flaen llaw.**

**Blwyddyn 12 - 13**
***NI DDYLAI DYFEISIADAU GAEL EI DEFNYDDIO*** **ar unrhyw achlysur yn ystod y diwrnod ysgol *(08:55 - 15:15)* heblaw am y Bloc y Chweched neu yn Ystafell waith y Chweched Dosbarth. Ymhob rhan arall o'r ysgol oni bai bod angen penodol mewn argyfwng sydd wedi cael ei drafod gyda'r dysgwr a'r rhieni / gwarcheidwad o flaen llaw.**

Mae defnyddio o ddyfeisiau tu allan i'r oriau hyn ar dir yr ysgol yn gyfan gwbl ar risg y defnyddiwr.

Definition of own digital device - Mobile Phone / Tablet / Audio Equipment / Headsets / Computer and Laptops.

Devices are brought into the school entirely at the risk of the owner and the decision to bring the device in to school lies with the user and their parents / carers as does the liability for any loss or damage resulting from the use of the device in school.

**Year 7 - 11**
***Devices ARE NOT TO BE USED AT ANY TIME DURING THE SCHOOL DAY (08:55 - 15:15)*** **(This includes break time and lunch time) unless explicitly required for an emergency or specific reason discussed beforehand with a learner and their parents / carers.**

**Year 12 - 13**
***Devices ARE NOT TO BE USED AT ANY TIME DURING THE SCHOOL DAY (08:55 - 15:15)*** **except in the Sixth Form block or the Sixth Form study room. In all parts of the school they should only be used for an emergency or specific reason discussed beforehand with the student's and their parents / carers.**

Devices used outside these hours on school ground lies entirely at the risk of the owners.



YSGOL DYFFRYN CONWY
Ffordd Nebo
Llanrwst
Conwy
LL26 0SD

Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800
Rhif Facs / Fax: 01492 642801

Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
E-bost / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

**PENNAETH / HEAD**
Mr Owain Gethin Davies